



**Dear Headteacher**

**We are writing to you today to request permission for Girlguiding members at [redacted] to wear their Girlguiding uniform to school on 22 February 2024, in celebration of World Thinking Day.**



**World Thinking Day is a global event held annually on 22 February by millions of Girlguiding members around the world. It's a day to celebrate our shared sisterhood, learn about girls and young women in other countries, and take action to make the world a better place.**

**Wearing their Guide uniforms on World Thinking Day allows girls to proudly demonstrate their membership in Girlguiding and show their commitment to its values of friendship, respect, and caring for others. It also creates a visible reminder of the important work Girlguiding does in empowering girls and young women to reach their full potential.**

**We understand that you have uniform policies in place, and we respect those policies. However, we hope you will consider granting this special permission on World Thinking Day, as it would provide a meaningful opportunity for our girls to express their Girlguiding spirit and connect with their peers who are also members.**

**The World Thinking Day theme for 2024 which is 'Our World, Our Thriving Future,'.**

**We would be happy to provide you with any further information you may require. Resources can be found on [www.campfire.waggs.org/worldthinkingday](http://www.campfire.waggs.org/worldthinkingday)**

**Thank you for your time and consideration. We hope you will look favourably upon our request and allow our girls to wear their Girlguiding uniforms with pride on World Thinking Day 2024.**

**Yours faithfully**  
**Girlguiding Cymru**

**Email for response**

[Redacted email address]





## Annwyl Brifathro / Brifathrawes

Rydym yn ysgrifennu atoch heddiw i ofyn am ganiatâd i aelodau Girlguiding yn  wisgo eu gwisg Girlguiding i'r ysgol ar 22 Chwefror 2024, i ddathlu Diwrnod Meddwl y Byd.



Mae Diwrnod Meddwl y Byd yn ddigwyddiad byd-eang a gynhelir yn flynyddol ar 22 Chwefror gan filiynau o aelodau Girlguiding ledled y byd. Mae'n ddiwrnod i ddathlu ein chwaeroliaeth gyffredin, dysgu am ferched a merched ifanc mewn gwledydd eraill, a gweithredu i wneud y byd yn le gwell.

Mae gwisgo eu gwisgoedd Guide ar Ddiwrnod Meddwl y Byd yn caniatáu i ferched ddangos eu balchder o'u haelodaeth o Girlguiding a dangos eu hymrwymiad i'w gwerthoedd o gyfeillgarwch, parch, a gofalu am eraill. Mae hefyd yn creu atgof gweladwy o'r gwaith pwysig y mae Girlguiding yn ei wneud wrth rymuso merched a menywod ifanc i gyrraedd eu llawn botensial.

Rydym yn deall bod gennych chi bolisiau gwisg ysgol ar waith, ac rydym yn parchu'r polisiau hynny. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y byddwch yn ystyried rhoi caniatâd arbennig ar Ddiwrnod Meddwl y Byd, gan y byddai'n rhoi cyfle ystyrlon i'n merched fynegi eu hysbryd Girlguiding a chysylltu â'u cyfoedion sydd hefyd yn aelodau.

Thema Diwrnod Meddwl y Byd 2024 yw 'Ein Byd, Ein Dyfodol Ffyniannus'.

Byddem yn hapus i roi unrhyw wybodaeth bellach y gallai fod ei hangen arnoch. Gellir dod o hyd i adnoddau ar [www.campfire.waggs.org/worldthinkingday](http://www.campfire.waggs.org/worldthinkingday)

Diolch i chi am eich amser ac ystyriaeth. Gobeithiwn y byddwch yn edrych yn ffafriol ar ein cais ac yn caniatáu i'n merched wisgo eu gwisgoedd Girlguiding gyda balchder ar Ddiwrnod Meddwl y Byd 2024.

**Yr eiddoch yn gywir**  
**Girlguiding Cymru**

E-bost ar gyfer ymateb

**Dysgwch fwy yn: [girlguidingcymru.org.uk](http://girlguidingcymru.org.uk)**

Elusen gofrestrdig Rhif 521209

Girlguiding Cymru, The Coach House, Broneirion, Llandinam, Powys SY17 5DS

Ff: 01686 688652 E: [waleshq@girlguidingcymru.org.uk](mailto:waleshq@girlguidingcymru.org.uk)

Peidiwch ag anghofio rhannu eich straeon digwyddiadau gyda ni:  
**#GirlguidingCymru**

